

1.

Gofnodion o gyfarfod 1 medi 2022 yn y Neuadd Bentref Llanbedr am 7.00

Yn gyfarfod blynyddol – neb o'r cyhoedd yn bresennol.

Cadeiriwyd gan Jane T Williams yn absennoldeb y Cadeirydd Eirwyn Thomas.

Pawb yn bresennol ond Eirwyn Thomas.

Cadarnhau polisiau a Swyddogion fel yn cofnodion mis Gorffennaf fel rhai cywir.

Darllenwyd "power Point" adroddiad blynyddol. Bod yn angenrheidiol gneud adroddiad blynyddol a hefyd ei gyhoeddi ar y wefan.

Hyfforddiant – nodwyd bod llefydd ar gael ar gyfer hyfforddiant Cynghorwyr. Rhain gan Un Llais Cymru. Gadael i bawb wybod pryd fydd hyfforddiant nesaf. Cost am hyn, tua £35 y Cynghorwr. Trafodwyd y posibilrwydd o roi mwy o arian yn y gyllideb ar gyfer hyn..

Dim buddiant i'w nodi.

Cadarnhawyd Cofnodion cyfarfod mis gorffennaf fel rhai cywir.

Ymlaen i agenda y Cyngor Cymuned Misol ar gyfer mis medi.

Cyllid – cafwyd adroddiad am hyn. Angen cyllido yn well, gan bod costau at gadw cae chwarae yn uchel. Torri y cae a cae deiliog ac amcanbris am drwshio yr offer. Pasiwyd i geisio am ail bris ar gyfer gwaith trwshio. Roedd yr amcanbris yn fwy na £500 am y gwaith. Felly angen ail bris.

Holwyd be yw oblygiadau ar gyfer HAL. A fydd angen cyllido a r ei gyfer at y flwyddyn nesaf. Neb yn gwybod. Ond canmol y rheolwr Newydd ar gwaith da sydd wedi ei wneud yn ystod yr haf.

Wedi derbyn presept £7500

Tal am gladdu £1590

Anfonebau - £16.00 llogi Neuadd

Y gyllideb – gallu rhyddhau arian o gyllideb Huchenfeld £1000

Gallu cael yr arian am etholiad gan nad oedd etholiad £1500

Gallu tynnu arian o gronfa Cae Deiliog os bydd angen.

Hyn yn galluogi Gwaith ar gyfer cae chwarae.

Cais Cynllunio

NP5/62/20J dymchwel hen adeilad rhyfel a codi adeilad sied amaethyddol ar gyfer ystorfa – ger Cambrian Clearance.

Pasiwyd – dim gwrthwynebiad – ond i ystyried oes yma werth hanesyddol? Rhestredig? Bydd yn gwella y safle yn weledol.

Hefyd cafwyd e bost gan Gymru Lan parthed eu cais am pods ger Capel Salem. (Cais cynllunio wedi ei wrthod cynt)

Yn anfon cais newydd.

Materion a drafodwyd – torri gwair ochr ffyrdd, Coed yn tyfu ar ganllaw Pont Beser, Trwsio y ballard ar y maes parcio ffordd Mochras. Rhain wedi cael eu hystyried gan Cyngor Gwynedd.

- Toiledau wedi eu tacluso.
- Llwybr rhwng Bryn Deiliog a'r Garages – wedi rhoi cwyn parthed hyn.
- Arogl Carffosiaeth Bryn Deiliog.
- Torri ochr Vic I'r fynwent. Wedi hysbysu Jason parthed yr angen I dorri hwn.
- Y wheely bin yn llawn eto o wastraff tai. DID YW HYN YN DDERBYNNIOL.
- Llwybrau Cyhoeddus – mewn trefn I'w torri. Bod Gruffydd Price am hebrwng JC I weld pa lwybrau sydd angen torri.
- Pasiwyd hefyd I gael cyfarfod dros zoom I drafod y llwybrau sydd angen blaenoriaethu.
- Rhedyn – llwybr 16 ochr bella I Coed Llety. Hefyd ceg llwybr 18 am Penarth. Llwybr rhif 7 ger y garafan Plas Gwynfryn.
- Ffordd ger Kiosg wedi bod yn broblem. Wedi ei ddatrys.
- Archwiliad cae chwarae = man welliannau eu hangen
- Goals – falle posibilrwydd grant.
- Ymestyn llinellau melyn ger Ty Mawr – adran gyfreithiol ac ym Mhentre Gwynfryn.
- Angen arwydd slofi ger Pentre Gwynfryn – Capel Beser.(Adroddwyd gan AH)
- Ceir yn parcio ger y Gof Golofn.
- Adroddiad am Bont y Pentref – bod archwiliad wedi ei wneud ac mae'r cyflwr yn iawn.
- Angen symud y cerflun I'r cae chwarae
- Bylchau yn y ffordd Sarn Hir – adrodd I'r adran priffyrdd Cyngor Gwynedd. Bod y clawdd yn cynnal y ffordd.
- Eto fod trigolion o amgylch Bryn Deiliog wedi bod yn cwyno parthed swm o Hafan Artro.

Cae Deiliog – yr oedd Iolyn Jones wedi derbyn pris am dorri brigau yn cae Deiliog. Eirwyn Thomas yn ceisio cael pris arall.

- Kiosg – Llanbedr yn fler iawn.
- Kiosg Pentre Gwynfryn – angen torri tyfiant o'l amgylch.
- Protest heddychol iawn gan grwp Pobl parthed diffyg ffordd osgoi yn Llanbedr.
- Yr heddlu wedi canmol agwedd y protestwyr.

Adroddiad gan Gwynfor Owen - wedi derbyn cwynion parthed torri ochr ffyrdd. Wedi hysbysu CG o hyn a gwnaethpwyd y gwaith yn syth. Ac wedi derbyn llythyrau – e byst yn diolch.

Clod I'r Cyngor – dim pwyllgora mis awst. Bod cyfarfodydd dros zoom o bell ddim bob amser yn gweithio – colli naws ar ymdeimlad o'r pwyllgor, yn enwedig pe bae protestio.

Offer casglu sbwriel – gadael I Gwynfor a John wybod ymlaen llaw fel gellir cel yr offer anghenrheidiol.

Bod tim tacluso Cyngor Gwynedd yn gallu dod I chwynu.

Trefnu diwrnod I gasglu sbwriel.

Trefnu noson zoom parthed llwybrau I rai.

